# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 35
23/11/20

## Arian ar goll

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

**Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!**



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes, Jacqueline Ashworth a Gwyn Rhydderch


An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

**Fersiwn Beibl.net**



"Petai gan ryw wraig ddeg darn arian, ac yn colli un ohonyn nhw. Byddai hi'n cynnau lamp ac yn mynd ati i lanhau'r tŷ i gyd, a chwilio ym mhob twll a chornel am y darn arian nes iddi ddod o hyd iddo. Pan mae'n dod o hyd iddo, mae'n galw'i ffrindiau a'i chymdogion draw, ac yn dweud wrthyn nhw, 'Dewch i ddathlu; dw i wedi dod o hyd i'r darn arian oedd wedi mynd ar goll.' Wir i chi, dyna sut mae Duw yn dathlu o flaen ei angylion pan mae un pechadur yn troi ato!"

*Luc 15:8-10 Beibl.net*



**Fersiwn syml**

"Roedd gan wraig ddeg darn arian. Un diwrnod sylweddolodd ei bod hi wedi colli un darn arian. Goleuodd lamp a dechreuodd lanhau'r tŷ cyfan a chwiliodd ym mhob twll a chornel i geisio dod o hyd i'r darn arian coll.



Ar ôl iddi ddod o hyd i'r darn arian galwodd ar ei theulu a'i ffrindiau a dywedodd wrthynt 'dewch i ddathlu gyda mi oherwydd dwi wedi dod o hyd i'r darn arian oedd ar goll'. Dyma sut mae Duw yn dathlu pan mae bobl sydd wedi pechu yn troi nôl ato."

# Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Beth sydd yn mynd ar goll yn aml yn eich tŷ chi?
2. Beth fuaset ti yn ei wneud os buaset wedi colli arian?
3. Beth wyt ti yn ei wneud pan fyddi'n dod o hyd i rywbeth pwysig sydd wedi bod ar goll?
4. Pam wyt ti'n meddwl fod Duw yn dathlu pan ydyn ni yn troi ato?



# Gweddi fer




O Dduw,
diolch i Ti am chwilio amdana i.
Diolch i Ti dy fod eisiau i mi fod yn ffrind i Ti.
Plîs helpa fi i droi atat Ti a dy ddilyn.
Amen.

Stori i'w lliwio

# Y darn arian coll

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Gofynnodd rhai o arweinwyr y Deml i Iesu pam ei fod o'n gyfeillgar gyda phobl oedd ddim yn dilyn rheolau Duw. Adroddodd Iesu'r stori hon sydd ag ystyr iddi.



"Roedd gan wraig ddeg darn o arian oedd yn werthfawr iawn iddi. Un diwrnod gwelodd fod un o'r darnau arian wedi mynd ar goll.




Cyfrodd nhw'n ofalus. 1,2,3,4,5,6,7,8,9,... 'Ble ar y ddaear ydw i wedi colli un o fy narnau arian gwerthfawr?' dyfalodd.




Edrychodd tu mewn i gelfi ac oddi tanynt ond ni allai ddod o hyd i'r darn arian coll yn unlle.



Yna aeth i nôl ei hysgub a sgubodd loriau'r tŷ i gyd ond ni allai ddod o hyd i'r darn arian coll, gwerthfawr.



Roedd y wraig yn ddigalon. Cynheuodd gannwyll a chwiliodd yn ddyfal am ei darn arian coll, gwerthfawr ym mhob twll a chornel nes yn y diwedd daeth o hyd iddo.



Dywedodd y newyddion da wrth ei ffrindiau! 'Rydw i wedi dod o hyd i'r darn arian fu ar goll,' meddai'n llawen. Roedd pawb wrth eu bodd ac fe fuon nhw'n dathlu."



Adroddodd Iesu'r ddameg hon i ddangos gymaint mae Duw yn caru pobl sydd mor bell oddi wrtho. "Mae'r angylion yn y nefoedd yn datl.lu pan mae hyd yn oed un person sydd ar goll yn dod i ymddiried yn Nuw," meddai Iesu. "

# Sialensau



## Potel reis

Llenwa botel â reis ac ychwanega wrthrychau bychain, amrywiol ynddi  e.e. marblen, botymau, pasta, clip papur, ceiniog. Caea'r top yn dynn  (gluda'r top yn sownd os oes plant ifanc iawn yn y teulu). Cymerwch dro i ddod o hyd i'r gwrthrychau.

## Darnau o arian

Sawl darn o arian gwahanol fedri di ddod o hyd iddyn nhw? Gwna rwbiadau o bob un ohonyn nhw gan ddefnyddio ffoil. Anfona lun ohonynt i grŵp Whatsapp, Facebook neu arweinydd dros Zoom.



## Glanhau

Beth am helpu i lanhau a thwtio yn y tŷ neu'r ardd yr wythnos hon?



Faint o ddarnau arian fedri di ddod o hyd iddynt wedi'u cuddio yn y pecyn hwn?



# Gemau



## Darnau arian ar goll!

**Bydd angen:**

- Darnau arian siocled
- Pin ffelt inc parhaol ('permanent')
- Yr adnod: "Dewch i ddathlu; dw i wedi dod o hyd i'r darn arian oedd wedi mynd ar goll."

**Beth i'w wneud:**

- Ysgrifenna eiriau'r adnod ar y darnau arian gyda'r pin ffelt parhaol.
- Gofynna i oedolyn eu cuddio o gwmpas y tŷ.
- Chwilia am bob darn a'u cadw nes dy fod wedi dod o hyd i bob darn. Mae mwy nag un person yn gallu gwneud hyn.
- Ar ôl darganfod pob un, rho'r adnod yn ei threfn.
- Wedyn cei fwyta'r darnau arian ond cofia rannu!




## Ras gyfnewid

**Byddi angen:**
Cyfarpar ar gyfer glanhau e.e. brwsh, hwfer, padell lwch, cadach, sbwng, mop, bwced, bowlen.

Rho'r cyfarpar glanhau yn un pen i'r ystafell.
Bydd angen i'r chwaraewyr sefyll ym mhen arall yr ystafell. Symudwch y cyfarpar glanhau o un pen i'r ystafell i'r llall mor gyflym ag y gallwch chi. Amserwch eich hunain yn gwneud hyn. Chwaraewch nifer o weithiau er mwyn gweld os allwch chi symud y cyfan mewn llai o amser bob tro.



# Posau

## Adnod wedi ei chuddio

Fedri di ddod o hyd i'r adnod sydd wedi cael ei chuddio isod. Tynna allan bob b,c,f, p neu s.

fpcDewchbciddathlu;fpsdwcisswedicbdodffcocc
hydspi'rbdarnscparianffoeddspwedicbsmyndfsarc
bgollbcs.sbfcLucsf15:9bcspf


Fedri di helpu'r ddynes i ddod o hyd i'w darn arian?





## Chwilio am y darn arian


Fedri di weld 8 gwahaniaeth rhwng y 2 lun?



# Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/cKm1MvQunj8




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/MBeyzM5g074



Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=yvHxUxjaboE



# Gweddi Greadigol

## Gweddi drych

Roedd y wraig yn y stori wedi chwilio ymhob man nes iddi ddod o hyd i'r darn arian oedd ar goll. Rwyt ti'n werthfawr iawn i Iesu ac mae'n chwilio amdanat am ei fod yn dy garu.

**Byddi angen:**

- Torri'r siâp drych
- Darn o gerdyn (fel bocs grawnfwyd)
- Papur gloyw neu 'ffoil' cegin.
- Glud

**Beth i'w wneud:**

- Torra'r siâp drych.
- Gluda'r siâp ar gerdyn a thorri o'i gwmpas.
- Torra ddarn o bapur gloyw neu'r 'ffoil' a'i ludo ar ddarn canol y drych.

**Sut i weddïo:**

- Edrycha ar dy lun yn y drych.
- Darllena'r geiriau o'i gwmpas.
- Diolcha i Iesu ei fod yn dy garu ac yn chwilio amdanat.








## Bod yn Ddiolchgar

Gwna boster yn dangos y pethau rwyt ti'n ddiolchgar amdanynt.

- Ysgrifenna "Diolch" yng nghanol y poster ac o'i amgylch ysgrifenna neu gwna luniau o'r pethau rwyt ti'n ddiolchgar amdanyn nhw.
- Gwna'r poster yn destun gweddi – diolch i ti Dduw am fy ngharu i, diolch am fy nghreu i, diolch am ffrindiau a theulu, diolch am fwyd a.y.y.b.
- Rho'r poster yn dy ffenest. Ychwanega bethau at dy restr yn wythnosol neu'n fisol.

# Crefft


## Waled Gerdyn





**I wneud y waled byddi angen:**
2 x Cerdyn lliw A4
Pren mesur, pensil,
siswrn,
glud, pinnau ffelt








1.Gosoda'r cerdyn ar y bwrdd yn ei ffurf tirlun ('landscape') a gwna linell 12cm o'r ymyl chwith.




2.Torra ar hyd y llinell. Byddi angen y darn lleiaf i wneud y waled.




3.Rho'r cerdyn lleiaf ar y bwrdd yn ei ffurf tirlun. Gyda dy bensil gwna linell 5cm o'r ymyl chwith a gwna linell 8cm o'r ymyl dde.




4.Defnyddia bren mesur i blygu'r cerdyn ar hyd y llinellau sydd mewn pensil.





5.Nawr gosoda'r ail gerdyn A4 ar y bwrdd yn ei ffurf tirlun. Gwna linell 7cm o'r ymyl chwith a llinell arall 14cm o'r ymyl chwith.



6.Torra ar hyd y ddwy linell sydd mewn pensil.




7.Plyga'r ddau stribyn fel consertina acordion neu wyntyll).



8.Gluda un pen i'r consertina yn sownd yn narn canol y waled.




9.Gluda un pen i'r ail gerdyn consertina yn sownd yn narn canol y waled.




10.Pwysa'r cardiau consertina i lawr yn gadarn a rho lud ar y ddau blyg uchaf.




11.Plyga'r cerdyn drosodd a'i roi'n sownd yn nau blyg top y cardiau consertina.



12.Tro'r cerdyn drosodd a gwasga'r cardiau consertina'n gadarn ynddo.






13.I wneud y clesbyn i gadw'r waled ynghau gwna lun a thorra stribyn 8cm o hyd ac 1.5cm o led. Gwna lun hefyd fel top bawd 5.5cm o hyd a 3cm o led a thorra fo allan.



14.Defnyddia binnau ffelt i addurno'r clesbyn a'r stribyn.



15.Gluda ddau ben y stribyn (ond nid y cyfan) i'r waled.




16.Gluda'r darn siâp bawd a'i wasgu'n gadarn i'r waled.

17.Arhosa i'r glud sychu'n iawn ac yna fe fydd dy waled yn barod i'w defnyddio!







# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | N | A | I | R | A | E | LL | W | T | F | E |
| D | O | D | E | N | G | L | A | N | H | A | U |
| A | I | NG | S | FF | DD | Y | G | O | D | R | A |
| S | L | A | U | U | R | U | D | I | E | G | N |
| T | Y | R | L | DD | E | I | R | G | W | A | N |
| Ŷ | NG | TH | M | S | O | D | N | O | CH | E | Y |
| D | A | R | G | A | N | F | O | D | W | N | C |
| D | I | E | D | W | E | U | D | M | I | U | W |
| A | G | L | E | N | R | O | C | Y | L | A | D |
| R | W | L | A | M | P | A | U | C | I | Y | U |
| N | I | R | A | Ŷ | O | DD | I | LL | O | C | W |
| E | D | Y | H | C | B | D | E | G | A | Ŷ | T |

ANGYLION
ARIAN
CHWILIO
COLLI
CORNEL
CYMDOGION
CYNNAU
DARGANFOD
DARN
DATHLU
DEG
DEWCH
DOD

DUW
DWEUD
FFRINDIAU
GLANHAU
GWRAIG
GYD
HYD
IESU
LAMPAU
POB
TWLL
TŶ

# Canu

10 darn o arian, deg darn o arian
10 darn o arian oedd ar benwisg y wraig.

1 darn o arian, 1 darn o arian.
1 darn o arian aeth ar goll gan y wraig

9 darn o arian, 9 darn o arian,
9 darn o arian oedd ar benwisg y wraig.

Chwiliodd a chwalodd, chwiliodd a chwalodd,
Chwiliodd a chwalodd yn y tŷ ymhob man.

Torrodd ei chalon. Torrodd ei chalon.
Torrodd ei chalon. O ble'r aeth y darn coll?

Ond daliodd i chwilio, Daliodd i chwilio.
Daliodd i chwilio'n hir gan sgubo a llnau.

Goleuodd y gannwyll. Goleuodd y gannwyll.
Goleuodd y gannwnwyll.
Chwiliodd pob cornel gudd.

Ffendiodd yr arian. Ffendiodd yr arian.
Ffendiodd yr arian coll ynghanol y llwch.

Daeth ffrindiau i ddathlu.
Daeth ffrindiau i ddathlu.
Daeth ffrindiau i ddathlu â hi
Mor llawen eu llef.



*Hawlfraint 2020*
*Susan Williams*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/MBeyzM5g074

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org